❖ Gweddi Nadolig

Cyflwynwn i ti, Arglwydd, ein moliant a'n diolch
am ystyr a llawenydd yr ŵyl ryfeddol hon.

Diolch i ti am genadwri'r Nadolig:
am dduwdod yn plygu at ein gwendid ni;
am fawredd yn amlygu ei hun mewn gostyngeiddrwydd;
am rym achubol mewn baban diymadferth.

Diolch i ti am lawenydd y Nadolig:
am newyddion da i'w dathlu;
am garol a chân i seinio'n clod;
am bob mwynhad a gawn yng nghwmni'n gilydd.

Diolch i ti am ysbryd y Nadolig:
am garedigrwydd a siriol deb;
am y boddhad o roi a derbyn;
am haelioni a hwyl, am gwmni a gwledd.

Diolch i ti am her y Nadolig,
am y geni mewn tlodi sy'n herio'n bywyd goludog;
am y gwyleidd-dra sy'n cywilyddio'n balchder;
am y tangnefedd sy'n ceisio lle yn ein calonnau.

Cyflwynwn i ti, O Dduw, ofidiau a helyntion dy blant
a phawb sydd mewn angen y Nadolig hwn.
Gwared ni rhag anghofio ynghanol ein digonedd
y cleifion a'r cystuddiol,
y tlawd a'r newynog,
yr unig a'r trallodus.

Tywys hwy at y Crist a ddaeth i'r byd
i weini ar y llesg a'r gwan.
Cymorth ni i wrando ar gân yr angylion
ac i geisio tangnefedd ar y ddaear:
tangnefedd rhwng cenhedloedd a phobloedd;
tangnefedd yn ein perthynas â'n gilydd;
tangnefedd yn ein cartrefi ac yn ein calonnau.

Amddiffyn y rhai sy'n annwyl gennym
a'r rhai sydd ymhell oddi cartref,
a dyro inni oll y Nadolig hwn
ddedwyddwch a llawenydd dy bresenoldeb;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com